

CYFARFOD y PWYLLGOR CYNLLUNIO a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 19eg Mehefin 2019 yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymunedol Wellington, y Rhyl ar ôl cyfarfod y Cyngor.

YN BRESENNOL

Y Cyngorydd Mrs. W. Mullen-James (Cadeirydd)

Y Cyngorwyr Mrs J. Butterfield YH MBE, A.S. Johnson, K. R. Jones,
Mrs P. M. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor,
a Ms V. Roberts.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

6. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cyngorwyr J. Ball, B. Blakeley Ms. J. Hughes, Miss S. L. Roberts, A. J. Rutherford ac R. J. Turner.

7. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ystyriodd yr Aelodau y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd, fel y dangosir isod a **PHENDERFYNWYD** fel y nodir arnynt nawr.

Nodyn 1: Hysbysir yr Awdurdod Cynllunio Lleol bod Cyngor Tref y Rhyl eisiau datgan, lle'n briodol, bod gofyn i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau megis swyddfeydd, siopau ac archfarchnadoedd, osod arwyddion dwyieithog sy'n adlewyrchu natur ddwyieithog ardal y Rhyl.

ATODLEN CEISIADAU CYNLLUNIO	
7.1	<p><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u> Ysgol Plas Cefndy, Ffordd Cefndy, y Rhyl</p> <p><u>WARD:</u> Derwen</p> <p><u>CYNGHORWYR Y WARD:</u> Mrs J. Chamberlain Jones Mrs E. M. Chard Miss S. L. Roberts</p> <p><u>RHIF Y CAIS:</u> 45/2019/0474</p> <p><u>DISGRIFIAD:</u> Parhau i ddefnyddio'r adeilad fel Ysgol Addysg Arbennig ac Uned Atgyfeirio Disgyblion.</p> <p><u>YMGEISWYR :</u> Mr Bryn Williams, Cyngor Sir Ddinbych</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> <i>Dim gwrthwynebiad</i></p>
7.2	<p><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u> Gwynfa, 6 Beechwood Road, y Rhyl</p> <p><u>WARD:</u> Plastirion</p> <p><u>CYNGHORWYR Y WARD:</u> K. R. Jones T. Thomas</p>

	<p><u>RHIF Y CAIS:</u> 45/2019/0469</p> <p><u>DISGRIFIAD:</u> Tystysgrif datblygiad cyfreithlon ar gyfer defnydd presennol yr eiddo fel tŷ annedd sengl</p> <p><u>YMGEISWYR:</u> Mr Phillip Lythgoe o'r cyfeiriad uchod.</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> <i>Dim gwrthwynebiad</i></p>
7.3	<p><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u> 18 Ash Court, y Rhyl</p> <p><u>WARD:</u> Tynewydd</p> <p><u>CYNGHORWYR Y WARD:</u> B. Blakeley B. Jones Miss C. L. Williams</p> <p><u>RHIF Y CAIS:</u> 45/2019/0488</p> <p><u>DISGRIFIAD:</u> Adeiladu estyniad i dŷ annedd.</p> <p><u>YMGEISWYR:</u> Mr Hugh Jones o 25 Dyserth Road, y Rhyl</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> <i>Dim gwrthwynebiad</i></p>

8. **HYFFORDDIANT: MR PAUL MEAD, RHEOLWR DATBLYGU, CYNGOR SIR DDINBYCH**

Ymhellach i gofnod rhif 63 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3ydd Ebrill 2019, croesawodd y Cadeirydd Mr Paul Mead, Rheolwr Datblygu, Cyngor Sir Ddinbych i'r cyfarfod a gwahoddodd ef i roddi cyfarwyddyd i'r Aelodau mewn perthynas ag ymatebion y Cyngor Tref i Geisiadau Cynllunio.

Anerchodd Mr. Mead y cyfarfod a chyfeirio at y dymunoldeb i'r Cyngor Tref ystyried y ceisiadau fel y'u cyflwynir ac i ymateb naill ai trwy nodi "*Dim gwrthwynebiad*" neu "*Gwrthwynebu am resymau penodol*" neu "*Dim gwrthwynebiad yn amodol ar Amodau*".

Dywedodd Mr. Mead, lle gofynnwyd am amodau, dylai caniatâd fodloni chwe prawf sef "*Angenrheidiol*", "*Seiliedig ar Gynllunio*", "*Perthnasol i'r cais*", "*Gorfodadwy*", "*Manwl gywir*" a "*Rhesymol*".

Esboniodd Mr. Mead mai ymateb y Cyngor Tref ddylai o fod a disgrifiodd achosion gan Gynghorau eraill lle'r oedd gwrthwynebiadau wedi eu gwneud yn seiliedig ar wrthwynebiadau unigol gan drigolion a oedd â'r gallu i gyflwyno eu gwrthwynebiadau ar wahân.

Mewn ymateb i gwestiwn, esboniodd Mr. Mead y dylid cyflwyno deiseb a drefnwyd gan drigolion i'r Adran Gynllunio.

Yna cyfeiriodd Mr. Mead at fynychu Ymweliadau Safle Cynlluno gan gynrychiolydd y Pwyllgor Cynllunio a'r angen i'r sawl a fynychai fedru cynrychioli barn ehangach y Cyngor Tref.

Dyweddodd Mr Mead mai'r ffordd briodol a mwyaf effeithiol i Gynghorwyr adrodd am gwyn gynllunio oedd drwy ddefnyddio'r ffurflen gwyno arlein.

Cadarnhaodd Clerc y Dref, lle'r oedd cwynion/tor-rheol gynllunio bosibl yn cael eu hadnabod yn ystod cyfarfod, yna yn ychwanegol at gofnodion y Cyngor Tref, byddai'r gwyn hefyd yn cael ei chyflwyno arlein.

Esboniodd Mr. Mead nad oedd yr Adran Gynllunio yn medru cynorthwyo gydag ymgynoriadau Cyn-cais Mawr gan fod y rhain yn destun eu rheolau statudol eu hunain. Mewn ymateb i gwestiynau, esbiniodd lefel y datblygiadau a fyddai'n gofyn i ddatblygwyr ymgymryd ag ymgynghoriad o'r fath.

Dyweddodd Clerc y Dref, pan roedd y Cyngor yn derbyn ail-gyflwyniad cais cynllunio, roedd yn aml yn anodd adnabod y newidiadau rhwng y cais gwreiddiol a'r cynlluniau a ail-gyflwynwyd a hyd yn oed fwy felly wrth geisio eu gweld ar y porth cynllunio. Gofynnodd i Swyddogion Cynllunio ystyried amlygu newidiadau i sicrhau nad oeddynt yn cael eu methu.

Ar ddiwedd y cyflwyniad, mynegodd y Cadeirydd werthfawrogiad y Pwyllgor i Mr Mdead am yr wybodaeth a gyflwynwyd.

9. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach, datganodd y Cadeirydd bod y Cyfarfod wedi dod i ben.

Llofnod:

Dyddiad: